# Newyddion Bethlehem

## Gwaelod-y-garth

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Haf 2017

## Pwy ydw i?




Pwy sy'n gwisgo crys tros ei grys fan hyn? Cewch yr ateb yn y rhifyn hwn! (Cliw bach i rai nad oedd yn yr oedfa ar Orffennaf 9fed – mae'r ateb yn odli gyda'r hyn mae e ar fin ei wisgo.)

## Derbyn tri aelod newydd

*Ar Sul cyntaf Gorffennaf, derbyniwyd tri aelod newydd i'n plith, gan ein harweinydd Delwyn Sion.*



*Croeso felly i Angharad Lewis, PhD. (chwith) sy'n byw yng Ngwaelod-y-Garth ac yn ddarlithydd ym Mhontypridd.*

*Croeso hefyd i Rhiain a'r Dr Glyn O. Phillips (isod) Mae Rhiain yn awdur sawl cyfrol ac yn llais cyfarwydd ar y cyfryngau. Oherwydd arbenigedd Yr Athro Phillips fel gwyddonydd a'i alwedigaeth fel academydd, mae'r ddau wedi byw ar sawl cyfandir ond bellach wedi setlo yn Radur.*



## Trefn Oedfaon yr Haf

**Cofiwch y byddwn yn cyfnewid Suliau gyda'r Tabernacl, Efail Isaf, dros Sul olaf Gorffennaf a thrwy Suliau Awst. Dyma'r drefn am eleni:**

**Gorffennaf 30**
Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 10.30
(Efail Isaf yn ymuno â ni) - Karen Owen

**Awst 6**
Efail Isaf - Cymun am 10.45

**Awst 13**
Bethlehem – dan ofal yr aelodau am 10.30

**Awst 20**
Efail Isaf am 10.45

**Awst 27**
Bethlehem – Ian Hughes am 10.30

Yn y canol, isod, **Morgan Iwan Ebenezer Ellis,** Gwaelod-y-Garth**,** oedd wedi ei ddewis fel un o facwyaid Cyflwyno'r Corn Hirlas yn seremoni cyhoeddi Prifwyl Caerdydd.



Croeso i **Clara Jên,** babi newydd Lowri (Glyn gynt) a Chris Warlow, Parc Fictoria, chwaer fach i Pegi Alys a wyres i Joy ac Eifion Glyn, Pentyrch.

**Hefyd yn y rhifyn hwn:**

- Taith i Bantycelyn
- Newyddion a Gweithgareddau
- Yr organ ar streic!
- Nodyn Delwyn

# Suliau – o nawr hyd Ionawr 2018

Gorffennaf
30 - Karen Owen - (Efail Isaf yn ymuno)

Awst
6 - Efail Isaf - Cymun
13 – Bethlehem - dan ofal yr Aelodau
20 - Efail Isaf
27 – Bethlehem - Ian Hughes

Medi
3 – Y Parchg. Hywel Wyn Richards
10 - Delwyn Siôn - Cymun a Bedydd
17 - Y Parchg. Robin Samuel
24 - Diolchgarwch y Plant

Hydref
1 - Y Parchg. Robert Owen Griffiths
8 - Delwyn Siôn - Cymun
15 - Oedfa Ardal - Creigiau / Pentyrch
22 - Y Parchg. Lona Roberts
29 - Hefin Jones

Tachwedd
5 - Y Parchg. Peter Dewi Richards
12 - Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans - Cymun
19 – Delwyn Sion
26 - Y Parchg. Allan Pickard

Rhagfyr
3 - Bore -Ymarfer i Blant yr Ysgol Sul
5pm Delwyn Sion Oedfa Gymun
10 - Bore - Ymweld â Chartref Gofal
5pm Oedfa Naw Llith a Charol
17 - Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul
24 - Dim trefniant eto
31 - Y Parchg. Dafydd Owen

Ionawr 2018
7 - Delwyn Sion Oedfa Gymun
14 - Hefin Jones
21 - Y Parchg. Robin Samuel
28 - Y Parchg. Robert Owen Griffiths


**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost (newydd):*** rhodrigj@btinternet.com


**Yr ateb i'r Pos ar dudalen 1**

## RHYS A'I SAITH O GRYSAU



Ie - Rhys Powys oedd dan y crys ar y dudalen flaen! Tra'n annerch y plant roedd yn honni ei fod, er mwyn arbed lle yn ei gês teithio, am wisgo saith crys T - un gwahanol ar gyfer pob dydd o'i wyliau. Ond ei neges oedd, er byddai pob crys yn dangos rhywbeth amdano, megis ei gefnogaeth i'r Swans a thîm pêl-droed Cymru, marathon Llundain ac yn y blaen, na fyddai hynny'n wir yn dweud "shwt un oedd e". A'r thema "Pwy ydw i?" oedd testun ei sylwadau i'r oedolion yn ail, hanner yr oedfa.

## Rhag i chi golli'r un gair...

Mae gwelliannau wedi eu gwneud i'r system sain ym Methlehem. Yn ogystal â diweddaru'r uchelseinyddion, gosodwyd meicroffonau newydd ac atodiadau gwell ar gyfer y rhai sy'n defnyddio offer clyw. Ac y mae rhagor o fân newidiadau i ddod cyn hir – megis meic ar labed côt y siaradwr/wraig, rhag i chi golli yr un gair o sylwadau rhywun fydd yn symud a siarad!

## Y Cwrdd Merched




Ar fore Mawrth, 9fed o Fai, dyma ninnau, grwp o wragedd Bethlehem, a dyrnaid o wŷr dewr (!) yn ymgynnull ar y sgwâr yn Radur i fynd ar ein gwibdaith flynyddol. Bws cwmni Clynnog oedd yn ein disgwyl gyda Dafydd, y perchennog hawddgar (a welir uchod ar y dde yn y rhes gefn), wedi bod yn fodd i'n tywys i wahanol leoliadau yn rhad ac am ddim ers 10 mlynedd bellach a'r caredigrwydd hwnnw wedi'n galluogi i ni godi tua dros £1000 at elusennau dros y blynyddoedd.

Pantycelyn oedd y nod eleni – cyrchfan digon amlwg yn ystod blwyddyn dathlu trichanmlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd. Wedi hanner awr bach o seibiant mewn lleoliad cyfleus ar ymyl y ffordd i gael coffi, ymlaen a ni i Bantycelyn; aros ar ben y lôn i dynnu llun o flaen yr arwydd yn dwyn llun o William Williams ac yna i lawr â ni i fuarth y fferm lle roedd Mr a Mrs Cecil Williams yn ein disgwyl. Cawsom groeso twymgalon ganddynt a'n harwain i'r tŷ i edrych ar ambell grair sydd yn dal yno o ddyddiau William Williams – yr hen gloc mawr gyda'i wyneb pres hardd a'r tebot addurniadol yn y cwpwrdd tsieina . Mae Cecil Williams (ail o'r chwith, isod) yn ddisgynnydd uniongyrchol o chwaer William Williams, Sara, ac roedd llun ohoni ar wal y parlwr. Mae yntau yn ymfalchïo yn ei dras ac yn awyddus i gadw Pantycelyn yn agored i gynnig croeso i'r sawl sydd â diddordeb ym mywyd a gwaith William Williams. Er iddo fod dros ei bedwar ugain erbyn hyn mae yntau a'i wraig wedi derbyn miloedd o ymwelwyr i'w cartref yn ystod y flwyddyn; byddai 2 llond bws o ardal y Bala yn ymweld dros y penwythnos dilynol. Cawsom gyfle i ganu un o emynau'r Pêr Ganiedydd cyn ffarwelio gan ddiolch i Mr a Mrs Williams am eu croeso.



Ymlaen a ni wedyn i eglwys Llanfair ar y Bryn i weld beddrod a chofgolofn William Williams. Mae'r eglwys hynafol mewn safle bendigedig a roedd y wlad o gwmpas ar ei gorau ac yn ein hudo gyda'i harddwch. Cawsom gwmni Mr David Gealey, cyn athro yng Ngholeg Llanymddyfri, i'n tywys o gylch yr eglwys. Fe'n synnwyd gan y gwaith coed arbennig yn y to – y bwáu pren wedi eu cydio wrth ei gilydd heb un hoelen na sgriw, dim ond pegiau pren. Roedd ffenestri lliw hynod i'w gweld gan gynnwys rhai o waith John Piper mewn arddull fodern yn cynnwys lliwiau cyfoethog. Nododd Mr. Gealey mai bach iawn yw'r gynulleidfa sy'n mynychu'r gwasanaethau yno ar y Sul ond caiff defnydd ei wneud o'r adeilad ar gyfer cyngherddau ac ambell briodas.

Erbyn hyn roedd yn amser cinio felly dyma ni'n teithio i Landeilo lle roedd pryd yn ein haros yng ngwesty'r Cawdor. Roedd gennym wedyn dipyn o amser i edrych o gylch y dref. Daeth nifer ohonom ar draws siop goffi oedd yn gwerthu siocledi a hufen iâ bendigedig, ond y peth mwyaf hynod amdani oedd bod pob cwpan a mwg a ddefnyddiwyd wrth weini'r diodydd yn dathlu gwahanol aelodau o'r teulu brenhinol – y Fam Frenhines, y Frenhines, priodas Carlo a Di, Andrew a Ffyrgi – wel, roedd Eirlys T.J. wrth ei bodd!!

Cyrhaeddom adref wedi cael diwrnod wrth ein bodd gyda'n diolch yn ddiffuant iawn i Eirlys am yr holl drefniadau a wnaeth ar ein rhan a hefyd i Dafydd am ein cludo'n ddiogel.

***Delyth Evans (Croes Cwrlwys)***

*(Diolch i Delyth Pollard am dynnu'r lluniau – dyna pam nad oes golwg ohoni ymhlith y teithwyr!)*



*Priodas Anwen Lewis ac Edward Pritchard Rowlands ar Ebrill 22 ym Methlehem. Mae Anwen yn ferch i Gwyneth Lewis, Lon y Fro, Pentyrch a daw Edward o Landyfrydog, Ynys Môn. Y Parchedig Ddr R Alun Evans oedd yn gweinyddu'r briodas a bu'r wledd yng Ngwinllan Llannerch. Mae Edward yn feddyg teulu ac Anwen yn gweithio i'r BBC a'r ddau yn byw yn Radur.*

Cofiwch am ein gwefan: www.bethlehem.cymru



Ar ddiwrnod cyntaf Gorffennaf 2017 gyda'r haul yn gwenu, mi briododd Anna Glyn efo Owain Morgan a hynny yn eglwys teulu ei mam yn Llandudoch, Sir Benfro. Yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd y priododd ei mam-gu a'i thad-cu, ac yn eglwys Sant Thomas hefyd y priododd ei rhieni - Joy ac Eifion Glyn 44 mlynedd yn ôl. Roedd yna gysylltiad teuluol yn ogystal efo'r offeiriad a weinyddodd y seremoni gan fod Y Parchedig Tim Morgan yn fab-yng-nghyfraith i'r ficer a briododd Joy ac Eifion! Bu'r neithior yng ngwesty'r Gelli Fawr, Cwm Gwaun, i ddathlu'r briodas. Mae Anna yn newyddiadurwraig efo'r BBC ac Owain, sy'n frodor o Fôn, yn beiriannydd strwythurol yn gweithio efo'r cwmni rhyngwladol ARUP. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Nhreganna.

**Sul Cymorth Cristnogol**

# CLYMU'R EDAFEDD COCH



Cafodd pawb darn o edafedd coch wrth ddod i mewn i'r capel. Ro'n i am i bawb glymu cwlwm yn yr edafedd bob tro y byddwn yn gweddïo. Gofynnais iddynt i glymu'r edafedd ynghyd:

"Clymwch eich edafedd, bydd â nifer o glymau yno erbyn hyn, gobeithio, wrth edafedd y person drws nesa, ac yna wrth yr un sydd yn y sedd nesa er mwyn creu rhaff hir iawn.

Wrth i chi glymu meddyliwch am y cysylltiad gyda'r bobl yr ydym wedi clywed amdanynt bore ma. Er ein bod yn byw yn bell oddi wrthynt, a'n profiadau yn wahanol iawn, rydym yn rhannu yr un anghenion sylfaenol; a phan gawn ein hanafu, rydym i gyd yn gwaedu'n goch.

Caiff eich edafedd coch ei anfon i Cymorth Cristnogol a fydd yn clymu'r edafedd a anfonwyd gan filoedd eraill a'i anfon at ein harweinwyr gwleidyddol i ddangos ein dynoldeb cyffredin, gan ofyn y caiff mwy i'w wneud dros y ffoaduriaid. Bydd Cymorth Cristnogol yn gofyn i iddynt i wneud y cwbl a allent i helpu'r rhai sydd wedi profi trawma a chaledi wrth iddynt chwilio am le diogel i'w alw'n gartref."

***Heulwen Jones***

# Gweithgareddau

Mae tri o lywyddion anrhydeddus Prifwyl Caerdydd 2018 yn aelodau ym Methlehem. Llongyfarchiadau i **Gwawr Owen**, **Anthony Evans** a **Huw Llywelyn Davies** ar yr anrhydedd ddaeth i'w rhan.

**Llongyfarchiadau hefyd i'r canlynol:**

- **Martin Huws**, Ffynnon Taf, ar ennill gwobr eisteddfodol arall – y tro hwn, Cadair Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy yn Llanrwst.
- **Rhydian King,** Llandaf, ar basio ei arholiadau deintyddol ym Mhrifysgol Lerpwl. Bydd yn dechrau ar ei swydd gyntaf fel deintydd yn y ddinas honno.
- **Dr. Cai Parry Jones**, Pentyrch gynt, ar ei gyfrol newydd yn Saesneg ar hanes yr Iddewon yng Nghymru.
- **Eirlys Lamb,** Llantrisant, ar gael ei dewis i Arwain Cymanfa Ganu i Ddathlu 150 mlwyddiant Capel ei mebyd yn Nanternis, Ceredigion
- **Áine Edwards**, Llandaf, ar gael ei dewis i sgwad Rygbi Cyffwrdd Merched Cymru dan 16 oed.

Dymunwn ymddeoliad dedwydd i'r canlynol:

- **Catrin Mathias**, Yr Eglwys Newydd, wrth iddi roi'r gorau i'w gwaith yn Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni.
- **Eilir Owen Griffiths,** Ffynnon Taf, ar ddiwedd ei dymor fel Cyfarwyddwr Cerdd Eisteddfod Llangollen. Yn ei brif swydd, mae Eilir yn ddarlithydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- **Wynford Ellis Owen**, Creigiau, sydd newydd ymddeol fel Prif Weithredwr yr Ystafell Fyw, Caerdydd ac ar fin cael ei urddo i'r Orsedd.



Dymuniadau da i **Lowri (Sion gynt)**, Yr Eglwys Newydd, sydd o'r diwedd wedi cael ail-ymuno gyda'i phriod yn Unol Daleithiau America, wedi cyfnod o aros yn amyneddgar i'r awdurdodau roi trefn ar eu papurau. Bore Sul Gorffennaf 9fed oedd oedfa olaf Lowri cyn hedfan i dalaith Ohio. Deallwn bydd y teulu yn ymweld â hi yno cyn bo hir.

Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol:

- **Ann Lewis, Llandaf** a'r teulu – bu farw mam Ann, Mrs Sal Roberts, o Fryncoch, Castell Nedd. Bu'r angladd ym Methlehem ar Fehefin 9fed.
- **Shan Osborne** sydd wedi colli ei hewyrth a'i modryb yn y gogledd.

# Newyddion

Anfonwn ein cofion at y rhai canlynol sydd naill ai wedi bod yn wael yn ddiweddar neu'n parhau i gael triniaethau:

- **Marian Jones**, Creigiau
- **Vi Jones**, Pentyrch
- **Gwion Rhisiart,** Trelluest
- **Hefin Mathias**, Yr Eglwys Newydd
- **June Lloyd,** Radur





Bu rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth ar ymweliad â Bethlehem yn ddiweddar – a chael sgwrs gan yr ysgrifennydd, Rhodri-Gwynn Jones, am yr hyn sy'n digwydd o fewn ein muriau. Fel gwelwch chi (ar y chwith), roedd y cwpan bedydd yn rhan o'i sgwrs, a bu'n sôn hefyd am oedfa'r cymun.

## *Streic yr Organ!*

(Mae'r bore Sul hwnnw pan wrthododd yr organ ufuddhau i'r organyddes wedi ysgogi ambell aelod i droi i'r ysgrythurau am eglurhad neu greu adnod a phennill o'r newydd am y wyrth a ddaeth i adfer caniadaeth i Fethlehem:

"Wele, gwas a ddaeth o'r dwyrain ac olew gwerthfawr yn ei ysgrepan. A'r gwas hwnnw a agorodd yr organ ac a eneiniodd ei pherfeddion â'r olew gwerthfawr. A hi a ganodd gân newydd. A'r bobl a lawenychasant lawenydd mawr."
***(allan o Lyfr yr Organydd – orgraff William Morgan)***

"Mae'n ddiystyr! — meddai'r Athro — dydy e'n gwneud dim sens!
Mae'r cwbl yn hollol abswrd!"
***(Pregethwr 1, adn 2 – fersiwn Beibl.net)***

"Mewn abswrdiaeth rwyf yn trigo,
aflwyddiannau ar bob llaw;
heddiw organ styfnig yma,
fory, pwy a ŵyr beth ddaw."
***(Y Pêr Organydd – gan gydnabod Pantycelyn; emyn 262)***

"Mae pobl ym mhen draw'r byd wedi'u syfrdanu gan dy weithredoedd.
O'r dwyrain i'r gorllewin maen nhw'n gweiddi'n llawen"
(***Salm 65, adn 8 – fersiwn Beibl.net)***

## *Gair gan Delwyn*



***"Ti a osododd holl derfynau daear, ti a drefnodd haf a gaeaf" Salm 74:17***

Rhyw ddwsin o adnodau'n unig sy'n y Beibl yn sôn am yr Haf, ac mae'r rhan fwyaf o rheini'n sôn am ffrwythau. Does dim bri ar dymor yr Haf gan y Cristion, yn wahanol iawn i'r Mwslim sy'n ymprydio a dathlu Ramadan ym mis Mehefin, y mis y dywedir y datguddiwyd y Qu'ran i'r proffwyd Mohamed. Mae'r Iddew'n ymprydio hefyd ar gyfer Gwyl Tisha B'Av - i gofio am ddinistrio'r deml yn Jerwsalem, ac mae'r Hindw'n dathlu'r haf ar ddiwrnod Raksha Bandhhan, sydd yn addas iawn yn rhoi sylw arbennig i blant.

Dros y dŵr yn Trumpton, neu a rhoi ei hen enw iddo - America! - mae'r brodorion yn dathlu Dawns yr Haul, dathliad sydd unwaith eto yn cynnwys tridiau o ymprydio, a dau ddiwrnod o weddïo am weledigaeth! (A Duw a ŵyr ma angen gweledigaeth draw myn co 'leni!)

Yr Haul a'r haf oedd **canolbwynt** Hen Grefydd ni'r Celtiaid, yn wir yr Haf, a'r diwrnod hiraf yn arbennig, oedd pinacl y flwyddyn grefyddol i'r Derwyddon.

Felly, Gyd Geltiaid Bethlehem, lle bynnag y byddwch, ymhell neu'n Argos! ...sori! ...agos, ga'i ddymuno gwyliau da i chi gyd. A gan fy mod i newydd ddychwelyd o oedfa neilltuol Allan Pickard, gai'ch annog chi ble bynnag yr ewch i "hau had da" (Mathew 13) a fel 'wedodd y bardd ...Joiwch !!!

***Delwyn.***

__O'r Cwrdd Diaconiaid__

# NODIADAU RHODRI

Cyfarfu'r Diaconiaid ddiwethaf ar y 12fed o Fehefin 2017. A rhag ofn nad ydych yn siŵr o pwy ydyn nhw, dyma'r rhestr (yn ôl trefn eu henwau cyntaf yn yr wyddor!):-

| | |
|---|---|
| Delwyn Sion | Dylan John |
| Eirlys (Cerith) Davies | Eirlys (TJ) Davies |
| Geraint Huws | Huw Lloyd |
| Ifan Roberts | Joy Glyn |
| Marged Cartwright | Nerys Williams |
| Peredur Evans | Peter Wynn Thomas |
| Rhian Huws | Rhodri-Gwynn Jones |
| Wyn Jones | |

Yn ychwanegol mae'r Parchedigion R Alun Evans ac Allan Pickard yn Ddiaconiaid Anrhydeddus yn ein plith.

Mae un enw yn llai ar y rhestr erbyn hyn oherwydd i Ian Hughes fynegi ei ddyhead i gael ei ryddhau o'r ddiaconiaeth wedi naw mlynedd o wasanaeth.

Mae'n diolch yn fawr iddo am ei gyfraniad cyhyd, ac yn llythyr ymddiswyddo Ian mae'n mynegi ei barodrwydd i barhau a rhai o'r dyletswyddau yr oedd yn ymgymryd a hwy fel Diacon megis trefnu rota Te'r Tabernacl, trefnu casgliad Cymorth Cristnogol, a bod o gymorth i'r Trysorydd gyda'r gofal ariannol o Sul i Sul.

Bydd hefyd yn arwain oedfaon yn ôl y gofyn, ac fe gawn ei gwmni yn ystod mis Awst eleni i barhau a'i ddadansoddiad treiddgar a heriol o'i gred a'i ffydd.

Un sydd ac a fydd, trwy ei wasanaeth yn batrwm i ni gyd ei efelychu!

Ac fel gwasanaeth, yn ddi-os, y dylid ystyried y cais, a gefnogwyd gan y Cwrdd Eglwys 'nol ym mis Ebrill, am i'r aelodaeth yn ei chyfanrwydd, yn ogystal a'r Ddiaconiaeth, gymryd cyfrifoldeb ar Sul y Cymun.

O fis Medi ymlaen felly, ar Sul y Cymun, gwahoddir dau aelod o'r gynulleidfa i wirfoddoli i fod o gymorth i rannu'r bara a'r gwin i bawb a fydd yn bresennol.

Dyna braf oedd cael ymateb yn unionsyth wedi cyhoeddi'r gwahoddiad am y tro cyntaf, oddi wrth Nia ac Áine, yn mynegi eu parodrwydd i fod o gymorth i wneud hynny.

Fe ddaw cyfle y gweddill ohonoch yn ddi-os dros y misoedd nesaf 'ma!

Ond o ddifrif, dyma'n cyfle i ddiolch i bawb ohonoch am eich ffyddlondeb i Fethlehem dros y tymor sy'n dirwyn i ben, gan obeithio y bydd yr un gefnogaeth yn parhau i dymor newydd o fis Medi ymlaen.

'Rydym yn ffodus o bawb sy'n cefnogi'r gweithgareddau amrywiol sy'n cael eu trefnu yn enw Bethlehem, ac yn gwerthfawrogi pob arwydd o ewyllys da sy'n deillio o'r ymdrechion rheini.

Os oes awgrymiadau gennych i'w cynnig ar unrhyw agwedd o'r gwasanaethau neu'r gweithgareddau a gynigir, peidiwch a bod yn hwyrfrydig i ddweud a thrafod.

Ac yn olaf, a wnewch nodi fy mod bellach yn defnyddio'r cyfeiriad canlynol ar gyfer fy e-bost:-
rhodrigj@btinternet.com

Mwynhewch wyliau'r haf a dewch yn ôl i'r gorlan wedi hynny yn barod i wasanaeth!

***Rhodri-Gwynn Jones***